



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

POLISI ABSENOLDEB TADOLAETH

Arolwg	Dyddiad	Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid		Dyddiad yr Arolwg
1.	2006			2007
2.	2007			2008
3.	2014	Newidiadau cosmetig		2015
4.	2015	Diweddariad am eglurder		2016
5.	2016	Newidiadau cosmetig		2017
6.	2018	Newidiadau i ddeddfwriaeth		2020
7.	2021	Adolygiad - dim newidiadau		2023
Swyddog Polisi		Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb	Cymeradwywyd gan a Dyddiad	Asesiad o ran Effaith ar Gydraddoldeb, a dyddiad
Jade Luke		Steffan Griffiths	HRTG 10/02/2003	

Tabl Cynnwys

1	BETH YW ABSENOLDEB TADOLAETH?.....	3
2	HAWL	3
3	HYD ABSENOLDEB TADOLAETH A THÂL TADOLAETH	3
4	RHYBUDD O'R BWRIAD I GYMRYD ABSENOLDEB TADOLAETH	3
5	GOFAL CYN Y GENI.....	4
6	GWYLIAU BLYNYDDOL	4
7	GWRTHOD ABSENOLDEB TADOLAETH	4
8	ADOLYGU POLISI.....	4

1 BETH YW ABSENOLDEB TADOLAETH?

Mae rheoliadau absenoldeb tadolaeth yn berthnasol i ddarpar rieni y mae eu partneriaid yn geni neu'n mabwysiadu plentyn. Yma byddwn yn egluro pwy sydd â'r hawl i gael absenoldeb tadolaeth a sut i fynd o'i chwmpas.

2 HAWL

Er mwyn cael hawl i gymryd absenoldeb tadolaeth rhaid i chi fodloni'r amodau canlynol.

- Rhaid i chi fod â chyfrifoldeb neu ddisgwyl bod â chyfrifoldeb am fagu'r plentyn.
- Rhaid i chi fod yn cymryd amser i ffwrdd i gefnogi'r fam neu i ofalu am y plentyn newydd-anedig.

3 HYD ABSENOLDEB TADOLAETH A THÂL TADOLAETH

Mae gennych yr hawl i gymryd wythnos neu bythefnos di-dor (pythefnos yw'r uchafswm) o absenoldeb tadolaeth a chael eich talu ar eich cyfradd wythnosol arferol.

Ni ellwch ddechrau eich absenoldeb tadolaeth cyn i'ch baban gael ei eni, a rhaid cymryd yr holl absenoldeb o fewn 56 diwrnod i ddyddiad yr enedigaeth. Os genir eich baban yn gynnar, gellwch gymryd eich absenoldeb unrhyw bryd o ddyddiad yr enedigaeth i'r dyddiad sy'n 56 diwrnod o'r wythnos y disgwyliid yn wreiddiol y byddai'r baban yn cael ei eni.

Os ydych yn mabwysiadu, gallwch ddewis cychwyn eich absenoldeb ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos ar, neu'n dilyn lleoliad y plentyn, a rhaid cymryd eich holl absenoldeb o fewn 56 diwrnod i'r lleoliad.

4 RHYBUDD O'R BWRIAD I GYMRYD ABSENOLDEB TADOLAETH

Os dymunwch gymryd cyfnod o absenoldeb tadolaeth argymhellir eich bod yn trafod yr absenoldeb gyda'ch rheolwr llinell yn y lle cyntaf.

Bydd gofyn i chi roi gwybod i Adnoddau Dynol am eich bwriad i gymryd absenoldeb tadolaeth erbyn y 15ed wythnos cyn wythnos ddisgwyliedig yr enedigaeth neu o fewn 7 diwrnod ar ôl cael gwybod gan eich asiantaeth fabwysiadu eich bod chi/ y mabwysiadwr wedi cael eich paru gyda phlentyn. Bydd yn rhaid i chi lenwi'r ffurflen:

- CAIS AM ABSENOLDEB TADOLAETH Y BRIFYSGOL (Genedigaeth/ Mabwysiadu)

5 GOFAL CYN Y GENI

Mae gennych yr hawl i amser i ffwrdd o'r gwaith gyda chyflog i fynychu apwyntiadau cyn geni gyda'ch partner. Dylech roi gwybod i'ch Rheolwr Llinell / Pennaeth Adran / Ysgol / Coleg am eich apwyntiad ymlaen llaw, a dangos eich cerdyn apwyntiad fel cadarnhad. Nid oes raid i chi roi tystiolaeth o'ch apwyntiad cyntaf.

6 GWYLIAU BLYNYDDOL

Bydd eich gwyliau blynyddol yn cronni yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wyliau Cyhoeddus neu ddiwrnodau Prifysgol a all ddisgyn yn ystod y cyfnod hwn.

7 GWRTHOD ABSENOLDEB TADOLAETH

Os ydych yn credu bod eich hawl i absenoldeb tadolaeth wedi ei gwrthod yn afresymol, dylech godi'r mater yn y lle cyntaf gyda'ch rheolwr llinell ac / neu Bennaeth yr Adran/ Ysgol/ Coleg.

Caiff unrhyw gwynion eu monitro gan Adnoddau Dynol, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng Adrannau, Ysgolion a Cholegau, yn y ffordd y mae polisïau'n gysylltiedig â chydbwysedd bywyd gwaith yn cael eu gweithredu trwy'r Brifysgol.

8 ADOLYGU POLISI

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau o dro i dro i wneud yn siŵr ei fod yn dal i fod yn addas at anghenion y sefydliad ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.